Hawdd ei ddeall

AMGUEDDFA CYMRU

# Amgueddfa Cymru
# Cynlluniau tan y flwyddyn 2030

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Amgueddfa Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Amgueddfa Cymru 2030'.




Rhif Elusen 525774

**Gorffennaf 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen.



Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi. Efallai bod y geiriau mewn ysgrifen glas trwm yn anodd i'w deall. Mae geiriau anodd mewn glas trwm y tro cyntaf maen nhw'n cael eu defnyddio.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Amgueddfa Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



**Gwefan:** www.amgueddfa.cymru

**Ffôn:** 0300 111 2 333

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma: www.bit.ly/easyreadwelsh

# Cynnwys


Beth ydy Amgueddfa Cymru? ....................................................4

Amgueddfa Cymru 2030..............................................................6

Chwech o bethau fyddwn ni yn eu gwneud ....................................8

1. Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynrychioli ......................9

2. Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol ac i ddysgu...............................11

3. Bod yn dda i'r amgylchedd......................................................13

4. Cefnogi llesiant pobl...................................................................14

5. Gwneud rhagor o bethau yn ddigidol.........................................15

6. Gweithio gydag eraill o gwmpas y byd.......................................16

Sut fyddwn ni'n gwneud y pethau yma.........................................18


Cymryd rhan.................................................................................19

Geiriau anodd...............................................................................20

# Beth ydy Amgueddfa Cymru?

AMGUEDDFA CYMRU

Amgueddfa Cymru ydy'r corff sydd yn rhedeg yr amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru. Museum Wales ydy'r geiriau Saesneg am Amgueddfa Cymru.  Amgueddfa Cymru ydy'r enw rydyn ni'n hoffi ei ddefnyddio.



Mae Amgueddfa Cymru yn rhedeg yr amgueddfeydd yma



- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd



- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
- Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon



- Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
- Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre



- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion
- Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, Nantgarw




- Ond rydyn ni'n gwneud mwy na rhedeg yr amgueddfeydd yma.
- Rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol.



- Rydyn ni'n gwneud digwyddiadau a gweithgareddau.
- Rydyn ni'n dysgu am fywyd, celfyddydau a'r amgylchedd yng Nghymru.



Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw, Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno.



- Rydyn ni'n benthyg casgliadau i amgueddfeydd eraill er mwyn iddyn nhw ddangos pethau am Gymru i bobl.


# Amgueddfa Cymru 2030




Amgueddfa Cymru 2030 ydy enw ein cynllun tan y flwyddyn 2030.



Mae llawer o bobl a chyrff wedi ein helpu ni i wneud y cynllun yma.



Rydyn ni wedi siarad gyda ein staff, gwirfoddolwyr,  y cyrff rydyn ni'n gweithio gyda nhw a grwpiau cymunedol.



Fe wnaethon ni wneud yn siŵr ein bod yn siarad gyda phobl sydd ddim yn dod i'n hamgueddfeydd neu sydd ddim yn defnyddio ein gwasanaethau nawr.



Diolch i bawb sydd wedi ein helpu ni i wneud y cynllun yma. Rydyn ni eisiau i bobl ddweud wrthyn ni beth maen nhw eisiau ar gyfer Amgueddfa Cymru.

# Dyma gerdd am sut rydyn ni'n teimlo yn Amgueddfa Cymru:



Mae gan bawb hawl



i deimlo eu bod yn perthyn,

i wneud synnwyr o'u gorffennol,

ac i weld llwybr i well dyfodol



Wrth inni wynebu heriau ein hoes,

gallwn fod yn lle o obaith

i bobl ym mhobman



Drwy rannu creadigrwydd a chwilfrydedd,

ar deithiau newydd



o ddarganfod, trafod a llawenydd,

mae pob un ohonom yn dod yn rhan

o stori Cymru

# Chwech o bethau fyddwn ni yn eu gwneud



Rydyn ni wedi penderfynu ar 6 o bethau fyddwn ni'n eu gwneud erbyn y flwyddyn 2030.



1. Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynrychioli.



2. Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol a dysgu.

3. Bod yn dda i'r amgylchedd.



4. Cefnogi llesiant pobl.




5. Gwneud mwy o bethau yn ddigidol



6. Gweithio gydag eraill o gwmpas y byd

# 1. Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynrychioli



Rydyn ni'n credu bod gan bawb hawl i fwynhau ein hamgueddfeydd

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n rhan o Amgueddfa Cymru, yn cynnwys pobl sydd yn profi **anghyfartaleddau** a **hiliaeth**.



**Anghyfartaledd** ydy pan dydy pobl ddim yn cael yr un cyfleoedd ag eraill oherwydd pethau fel bod yn anabl, bod yn fenyw neu bod yn lesbiad, hoyw neu ddeurywiol.



**Hiliaeth** ydy pan mae rhywun yn cael eu trin yn ddrwg oherwydd eu bod yn perthyn i hil arbennig. Gwahanol hiliau ydy pethau fel bod yn ddu, Asiaidd, teithwyr sipsi neu Dwyrain Ewropeaidd.




Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phobl a chymunedau i benderfynu ar beth i'w gadw a'i ddangos yn ein hamgueddfeydd.



Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy hawdd i bobl ym mhob rhan o Gymru i fwynhau ein gwaith a chymryd rhan mewn digwyddiadau.

**Enghraifft**



Rydyn ni wedi casglu'r arwyddion roedd pobl yn eu cario yn y protestiadau **Mae Bywydau Du o Bwys** yn 2020.

Fe fyddwn ni'n cadw'r arwyddion yma yn ein casgliadau fel bod pobl yn y dyfodol yn gwybod beth wnaeth ddigwydd.




Ymgyrch ydy **Mae Bywydau Du o Bwys** i stopio pobl ddu rhag dioddef hiliaeth.

# 2. Ysbrydoli pobl i fod yn greadigol ac i ddysgu




Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r holl ysgolion yng Nghymru erbyn 2030.



Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion i ddatblygu eu sgilliau ac i fod yn **greadigol**.

Mae **creadigol** yn meddwl defnyddio eich dychymyg a gwneud rhywbeth newydd. Mae'n meddwl pethau fel peintio llun, ysgrifennu stori, gwneud ffilm neu hyd yn oed coginio.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda rhagor o wirfoddolwyr ac artistiaid.



Fe fyddwn ni'n helpu'r bobl sydd yn gweithio inni i fod yn fwy **creadigol** ac i ddysgu.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl sydd yn wynebu **hiliaeth** ac **anghyfartaledd** yn cael eu cynnwys.

**Enghraifft**




Yn ystod y pandemig Covid-19 roedd ysgolion yn defnyddio ein gweithgareddau digidol.





Roedd hyn yn helpu myfyrwyr i ddysgu yn ystod y cyfnod clo pan nad oedden nhw'n gallu mynd i amgueddfeydd.

# 3. Bod yn dda i'r amgylchedd



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwaith ddim yn gwneud niwed i'r **amgylchedd**.



Fe fyddwn ni'n darganfod ffyrdd o leihau ein carbon.


Er enghraifft, fe fyddwn ni yn darganfod ffyrdd gwahanol o ddefnyddio ynni fel ein bod yn defnyddio llai. A dim ond defnyddio ynni sydd yn well i'r **amgylchedd**.

Fe fyddwn ni'n gweithio'n wahanol fel ein bod ni ddim yn gwastraffu deunyddiau gwerthfawr.



Fe fyddwn ni'n gwneud lleoedd ar gyfer planhigion a bywyd gwyllt i dyfu yn ein hamgueddfeydd.


Fe fyddwn ni'n darganfod mwy am sut mae'r amgylchedd yn cael ei niweidio. Fe fyddwn ni'n dweud wrth bobl am hyn.



Fe fyddwn ni'n annog pawb i wneud pethau da i'r **amgylchedd.**

**Enghraifft**

Mae ein gwyddonwyr wedi darganfod sut mae bywyd mewn afonydd yn cael ei effeithio gan y pethau sydd yn digwydd ar y tir.



Fe fydd hyn yn ein helpu ni ac eraill i gadw ein hafonydd yn iach.

# 4. Cefnogi llesiant pobl



Mae mynd i amgueddfeydd yn helpu i wella **llesiant** pobl.

**Llesiant** ydy pobl yn teimlo'n ddiogel, hapus ac iach.



Rydyn ni eisiau gwneud i bawb deimlo bod croeso iddyn nhw yn ein hamgueddfeydd.



Rydyn ni eisiau i'n hamgueddfeydd fod yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pobl gydag anableddau yn gallu eu cyrraedd a'u defnyddio nhw yn hawdd.



Fe fyddwn ni'n gwrando ar ein hymwelwyr i ddysgu sut i wneud eu hymweliadau yn well.



Fe fyddwn ni yn cefnogi ein staff a'n gwirfoddolwyr i helpu ymwelwyr i fwynhau eu hymweliadau yn fwy.



**Enghraifft**
Mae gan Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru Sied Dynion. Sied Dynion ydy lle i ddynion ddod at ei gilydd i siarad am eu iechyd meddwl a **llesiant**.

# 5. Gwneud rhagor o bethau yn ddigidol



Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy hawdd i bobl fwynhau ein hamgueddfeydd a gweithio drwy ddefnyddio technoleg **digidol**.

**Digidol** ydy defnyddio pethau fel cyfrifiaduron, tabledi a ffonau deallus.




Fe fyddwn ni'n cynnwys rhagor o dechnoleg **digidol** yn ein hamgueddfeydd.




Fe fyddwn ni'n gwneud rhagor o bethau i bobl eu defnyddio ar y rhyngrwyd gartref neu yn y gymuned.

**Enghraifft**





Yn ystod y pandemig Covid-19 fe wnaethon ni ddechrau cylchgrawn digidol/ar-lein newydd am gelfyddyd mae pobl yn gallu edrych arno ar y rhyngrwyd.




Enw'r cylchgrawn ydy Cynfas.

# 6. Gweithio gydag eraill o gwmpas y byd



Rydyn ni eisiau i bobl o gwmpas y byd wybod am Gymru ac am ein hamgueddfeydd.



Rydyn ni eisiau i bobl Cymru wybod am rannau eraill o’r byd ac am y bobl sydd yn byw yno.



Fe fyddwn ni’n gweithio gyda chyrff o leoedd o gwmpas y byd.



Fe fyddwn ni’n rhannu pethau o’n hamgueddfeydd i’w dangos o gwmpas y byd.



Fe fyddwn ni’n benthyg o amgueddfeydd mewn rhannau eraill o’r byd fel bod pobl Cymru yn gallu eu gweld nhw .



Fe fyddwn ni'n defnyddio mwy ar yr iaith Gymraeg.

Rydyn ni eisiau i bobl allu defnyddio'r ieithoedd maen nhw yn eu siarad yn eu cymunedau.




**Enghraifft**



Mae'n bwysig iawn ein bod ni yn gweithio gyda gwledydd eraill. Mae'n helpu cymunedau yng Nghymru i gysylltu gyda chymunedau o gwmpas y byd.

Fe wnaethon ni gynnal cyfarfod gyda phobl o wledydd eraill i siarad am hawliau diwylliannol a rhannu enghreifftiau o waith da.





# Sut fyddwn ni'n gwneud y pethau yma

Fe fyddwn ni'n gwneud y 6 o bethau yma drwy weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill. Mae hyn yn bwysig hefyd oherwydd deddf o'r enw Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Fe fyddwn ni'n cynnwys pobl Cymru pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.




Rydyn ni'n cael ein hadnabod fel Corff Ymchwil Annibynnol. Mae hyn yn meddwl ein bod yn cymryd ymchwil o ddifrif. Ac rydyn ni'n gwneud yn siŵr ei fod yn ein helpu ni yn ein gwaith.



Fe fyddwn ni yn dangos sut mae beth rydyn ni yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth i bobl.




Fe fyddwn ni yn rhedeg ein corff yn dda ac yn gwario arian yn ofalus.



Fe fydd ein gwaith fel amgueddfa yn gwneud yn siŵr bod pob agwedd o fywyd Cymru yn cael ei gynrychioli.

# Cymryd rhan



Rydyn ni'n gobeithio eich bod yn hoffi ein cynlluniau.



Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi yn dod i rai o'n hamgueddfeydd neu i bob un o'n hamgueddfeydd. Rydyn ni eisiau gwybod eich stori chi hefyd. A gwneud yn siŵr ein bod yn eich cynrychioli chi.

Rydych chi'n gallu darganfod sut i gymryd rhan ar ein gwefan - www.amgueddfa.cymru

Neu Cyfryngau Cymdeithasol

www.facebook.com/amgueddfacymru
www.twitter.com/amgueddfacymru
www.instagram.com/museumwales

## Ydych chi'n gallu helpu?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen. Rydyn ni'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn meddwl bod pobl yn gallu dod i mewn am ddim.

Mae yna lawer o ffyrdd rydych chi'n gallu ein cefnogi, fel gwirfoddoli, dod yn aelod neu roi rhodd. Os ydych chi'n prynu rhywbeth o'n siop neu gaffi mae hynny yn ein helpu ni hefyd.



Rydych chi'n gallu darganfod rhagor am sut i'n cefnogi ni ar ein gwefan. www.amgueddfa.cymru/cyfrannu

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw, Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno.

## Anghyfartaledd

Anghyfartaledd ydy pan dydy pobl ddim yn cael yr un cyfleoedd ag eraill oherwydd pethau fel bod yn anabl, bod yn fenyw neu bod yn lesbiad, hoyw neu ddeurywiol.

## Creadigol

Mae creadigol yn meddwl defnyddio eich dychymyg a gwneud rhywbeth newydd. Mae'n meddwl pethau fel peintio llun, ysgrifennu stori, gwneud ffilm neu hyd yn oed coginio.

## Digidol

Mae digidol yn meddwl defnyddio pethau fel cyfrifiaduron, tabledi a ffonau deallus.

## Hiliaeth

Hiliaeth ydy pan mae rhywun yn cael eu trin yn ddrwg oherwydd eu bod yn perthyn i hil arbennig. Gwahanol hiliau ydy pethau fel bod yn ddu, Asiaidd, teithwyr sipsi neu Dwyrain Ewropeaidd.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pobl gydag anableddau yn gallu eu cyrraedd nhw a'u defnyddio yn hawdd.

## Llesiant

Llesiant ydy pobl yn teimlo'n hapus ac yn iach.